

Eluned Lee yn rhyfeddu at Y Pethau i ddal Bwydlenni

FEDRA i ddim coelio mai fi yw'r unig un sydd yn casglu 'y pethau i ddal bwydlenni', ond er ysgrifennu llythyrau i gylchgronau dirifedi ym Mhrydain i holi a oedd rhywun arall â'r un diddordeb, nid oes neb wedi cyfaddef! Damwain a hap oedd i mi ddechrau. Symudon ni i fyw o Gaeredin i Fae Trearddur, ger Caerdybi, yn 1982. Roeddwn eisiau rhoi anhreg i'r hogiau ac es i weld beth oedd ar werth yn Gaerwen, yn sêl Morgan Evans. Roedd Evan, y mab hynaf, deuddeg oed, yn casglu darnau arian, a phan welais ddimai Mynydd Paris ar werth, doedd dim amheuaeth gennyf. Ond beth i'w gael i Andrew, flwyddyn yn fengach. Yna gwelais ddraig fechan arian o Tsieina. Hoffai Andrew'r gêmâu *Dungeons and Dragons*, efallai y byddai'r ddraig yn plesio. Doedd dim llawer o bobl yn gwario yn yr arwerthiant a medrais brynu'r ddau eitem.

Llwyddais i blesio Evan. Roedd o wrth ei fodd yn derbyn dimai Mynydd Paris am ei fod wedi dilyn hanes y Gwaith Copr yn y gwersi hanes yn ei ysgol newydd. Pan ddangosais y ddraig i Andrew, dywedodd ei wyneb y cyfan. 'Golwg eiddil arno,' meddai'n reit ddistaw, 'Hoffet ti gael arian yn ei le,' meddwn, a daeth gwên fawr i'w wyneb! Rhois y ddraig ar y silff ben tan ac anghofio amdani.

Roeddwn wedi dechrau cymryd diddordeb mewn hen bethau, a rhai wythnosau wedyn, cefais fy hun mewn ffair yn y Buckley Arms ym Miwmaris. Ar un o'r stondinau, gwelais ddraig arian o Tsieina, ddim yn annhebyg i'r un gartref, ond roedd hon yn fflat ar stand. Holais berchennog y stonddin amdani. 'Mae hi i ddal bwydlen,' meddai, a doedd gen i ddim syniad am beth oedd hi'n sôn! Penderfynais ei phrynu a soniais wrthi am y ddraig o Morgan Evans. 'Edrychwch arni'n ofalus,' meddai, 'os oes hollt ar hyd ei chefn, peth i ddal bwydlen ydi hi.' Roedd hi'n iawn! Roedd y ddraig ar y silff ben tan â hollt ar hyd ei chefn! Roeddwn i wedi cael y ddau gyntaf o'm casgliad. (Llun 1)

Doedd mynd ati i gasglu pethau i ddal bwydlenni ddim yn hawdd! Yn y lle cyntaf, ychydig iawn o werthwyr henebau yn lleol oedd yn gwybod beth yr oeddwn yn sôn amdano. Ac yn ail, synnais ddarganfod nad oedd llyfr yn bod yn eu trafod! Cefais hyd i ambell gyfeiriad atynt mewn llyfrau ar henebau arian a chrochenwaith, ond prin iawn oedd unrhyw wybodaeth. Penderfynais ysgrifennu mewn llyfr mawr o dudalennau gwag, bob tamaid o wybodaeth oedd ar gael ers pan oeddwn wedi llwyddo i brynu darn newydd at y casgliad. Cafodd fy mab, Andrew bleser yn rhoi'r teitl a'm henw mewn llythrennau bras ar glawr y llyfr. Erbyn hyn, mae bron holl dudalennau'r llyfr wedi eu llenwi!

Yn fuan iawn, sylweddolais pa mor eang oedd y maes, a chymaint o amrywiaeth oedd ar gael. Gwelir rhai mewn arian, efydd, crochenwaith, gwydr, ifori ac asgwrn, a dwi'n dotio at gywreindeb pwy bynnag a'u cynlluniodd.


Cawn ddilysnod ar bod darn arian, sydd yn hynod gyfleus i'w dyddio, a cheir marc cofrestru ar rai o'r darnau crochenwaith. Mae'r ffatrioedd enwog, e.e. Royal Dalton, Minton a Royal Worcester, bob amser â marc yn rhoi y mis a'r flwyddyn mewn siâp diamwnt ar waelod y darn. Y darn hynaf sydd gennyf yn fy nghasgliad yw pâr o



Llun 1



Llun 2



Llun 3

Royal Worcester â marc 1864 arnynt (Llun 2). Mae darnau pwysicaf fy nghasgliad wedi eu gwneud yn ystod ail ran Teyrnasiad y Frenhines Victoria a'r cyfnod Edwardaidd, hyd at ddechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf.

Ar rai darnau, mae lle pwrpasol i ysgrifennu'r fwydlen mewn pensil, ac yna gellid ei ddileu ar ddiwedd y wledd. Rhai porslen ydynt ac mae ôl y bencil yn dal arnynt. Rhaid eu bod wedi cael eu defnyddio'n gyson. (Llun 3)

Pleser arbennig yw cael tipyn o gefndir wrth ddarganfod darn newydd i'r casgliad. Prynais ddarn o wneuthuriad 'Meissen' ar ôl cyfarfod y deliwr yn y ffair gyntaf ar safle'r sioc amaethyddol ar Ynys Môn. Roedd o wedi prynu'r darn ugain mlynedd ynghynt gan hen foneddiges yn ei hwythdegau, a

oedd yn ferch i berchennog chwarel Dorothea yn Nyffryn Nantlle. Yn blentyn, cofiai weld deuddeg o'r pethau dal bwydlenni o wneuthuriad Meissen ar y bwrdd mawr yn ei chartref pan oedd ei rhieni yn rhoi gwledd arbennig. Yr wyf i yn enedigol o Benygroes, Dyffryn Nantlle, ac yr oedd fy nhaid yn chwarelwr yn y Penrhyn ym Methesda, tua'r un adeg ag yr oedd perchennog Dorothea wedi prynu dwsin o ddarnau 'Meissen' i addurno'i fwrdd bwyd. Adroddai fy nhad am y tloidi mawr, a sut oedd y teulu yn ceisio byw ar bymtheg swllt o gyflog chwarelwr yr wythnos. Diddorol yw cymharu'r ddau deulu! Dechreuais feddwl beth oedd tynged yr un darn ar ddeg arall. Annisgwyl oedd prynu darn 'Meissen' arall o'r un ffurfiad

(Parhad ar dudalen 13)